

Diweddariadau'r wythnos o CGGC

23 MEDI 2019

Helo, a chroeso i gylchlythyr wythnos hon.

Os nad ydych eto wedi enwebu elusen, menter gymdeithasol, grŵp cymunedol neu wirfoddolwr yng [Ngwobrau Elusennau Cymru](#), yna rydych yn rhedeg allan o amser...mae'r cam enwebu yn cau ar 2 Hydref (dydd Mercher nesaf!) Mae dewis o 9 categori sy'n cwmpasu ehangder gwaith y sector gwirfoddol. Os yw eich bywyd wedi cael ei newid gan fudiad gwirfoddol neu wirfoddolwr (neu'n tîm o wirfoddolwyr hyd yn oed) yna gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael eich enwebiadau i mewn - peidiwch â cholli'r cyfle hwn i ddangos iddyn nhw faint roedd yn ei olygu. Ewch i [gwobrauelusennau.cymru](#) i enwebu.

Mae'r hydref yn cychwyn yn swyddogol heddiw (ble mae'r flwyddyn wedi mynd?!) sy'n golygu ei bod hi'n bryd dechrau paratoi ar gyfer y digwyddiad blynyddol mwyaf i sector gwirfoddol Cymru . Bydd [gofod3 2020](#) yn digwydd yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 19 Mawrth. Safiwch y dyddiad, mwy o wybodaeth i ddilyn yn fuan...

Diolch am ddarllen, dal chi to wythnos nesaf.

Etholiad Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGC 2019

Mae ein haelodau wedi dewis... dyma enwebeion eich bwrdd ar gyfer 2019!

[Darllen mwy](#)

Cyllid diweddaraaf

Paid a cholli mas ar gyllid hawdd i'ch cymuned

Y dyddiad cau ar gyfer Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru yw 31 Hydref 2019

[Darllen mwy](#)

Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol - Grantiau Cornerstone

Mae rhwng £10,000 a £50,000 ar gael tuag at gost prosiectau atgyweirio strwythurol ar frys a gostiwyd fwy na £100,000 gan gynnwys TAW.

[Darllen mwy](#)

Sefydliad Paul Hamlyn - Cronfa Datblygu Athrawon

Mae grantiau o hyd at £150,000 ar gael i bartneriaethau sefydliadau celfyddydau/diwylliannol ac ysgolion, a fydd yn gweithio gyda'i gilydd am ddwy flynedd academaidd.

[Darllen mwy](#)

Ymddiriedolaeth Ernest Cook

Mae grantiau ar gael i ariannu prentisiaethau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â grantiau ar gyfer ariannu cyflogau Swyddogion Dysgu Awyr Agored.

[Darllen mwy](#)

Gwirfoddoli

Help i wirfoddoli

Ailedrych ar ein blog mwyaf poblogaidd o 2019 hyd yn hyn: mae Fiona Liddell yn cynnig rhai awgrymiadau i wirfoddolwyr ar wneud y gorau o wefan Gwirfoddoli Cymru.

[Darllen mwy](#)

A allech chi ennill Gwobr Elusennau Cymru?

Nid ar gyfer elusennau yn unig y mae Gwobrau Elusennau Cymru - mae pob mudiad gwirfoddol gan gynnwys mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol yn gymwys! Os ydych chi'n falch o waith eich sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf beth am enwebu'ch hun - ond brysiwch, y dyddiad cau yw 2 Hydref.

[Darllen mwy](#)

Cyngor ac arweiniad

Digwyddiadau effaith rhanbarthol - archebu eich lle

Bydd y rownd nesaf o'n Digwyddiadau Effaith yn eich helpu i adnabod, cynllunio a rhannu'r gwahaniaeth cadarnhaol mae eich mudiad yn ei gael ar gymdeithas.

[Darllen mwy](#)

Sut i wneud camgymeriadau

Dyma Susie Ventris-Field ac Amber Demetrius o Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn gofyn pam ein bod yn cael cymaint o drafferth i weld camgymeriadau fel cyfle i ddysgu.

[Darllen mwy](#)

Hyfforddiant a digwyddiadau

Clywed mwy am gynlluniau dyfodol CGGC

Mae CGGC am creu swyddfeydd cydweithredol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Dewch i'n sesiwn frecwast i glywed mwy, dweud eich dweud, a darganfod sut y gallwch chi gymryd rhan.

[Darllen mwy](#)

Llywodraethu da i fudiadau gwirfoddol

Bydd y cwrs diwrnod llawn hwn yn eich cyflwyno i lywodraethu elusennau ac yn eich cefnogi i sefydlu a chynnal safonau uchel fydd yn galluogi eich sefydliad i ffynnu.

20 Tachwedd 2019, Caerdydd

[Darllen mwy](#)

Defnyddio 'Theori Newid' i Werthuso

Sut y gall datblygu theori newid gynorthwyo'ch mudiad i fesur a gwerthuso effaith.

14 Tachwedd 2019, Abertawe

[Darllen mwy](#)

Polisi a prosiectau

Cyhoeddia ymchwil ar Rymuso Cymunedau yng Nghyd-destun Brexit

Mae'r ymchwil yn ceisio adnabod pa gefnogaeth sydd ei angen i sicrhau bod y trydydd sector yn wydn i ymdopi gydag unrhyw heriau a chyfleoedd y gall Brexit ei gyflwyno.

[Darllen mwy](#)

Eich cyfle i arwain y ffordd mewn partneriaeth chwaraeon newydd

Mae mudiadau yn cael eu gwahodd i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Chwaraeon Cymru i chwarae prif rôl mewn sefydlu Partneriaeth Chwaraeon.

[Darllen mwy](#)

Gwyl i archwilio dyfodol Cymru

Yr wythnos hon bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal GWLAD, Gŵyl Cymru'r Dyfodol.

[Darllen mwy](#)